**Rebecca Evans AS/MS**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/00336/25

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd,
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

27 Chwefror 2025

Annwyl Andrew,

Diolch am adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg.

Rwy'n amgáu fy ymateb i'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg

## Ymateb i Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Ym mis Ionawr 2025, cyflwynodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA) ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg. Mae'r adroddiad yn cynnwys dau argymhelliad. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ..... **3**

**2. Ymateb i'r Argymhellion** ..... **4**

Argymhelliad 1 ..... 4

Argymhelliad 2 ..... 4

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Medi 2024. Ar adeg ei gyhoeddi, roedd y Bil yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae disgwyl i Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi gael ei gyhoeddi ar 26 Chwefror 2025, a bydd y trydydd darlleniad yn cael ei gynnal ar 5 Mawrth. Wedyn bydd y Bil yn mynd yn ei flaen drwy Dŷ'r Cyffredin.

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch marchnata neu ddefnyddio cynnyrch yn y Deyrnas Unedig a'r unedau mesur a'r symiau y mae nwyddau'n cael eu marchnata ynddynt yn y Deyrnas Unedig.

Ar ôl iddi adael yr UE, sefydlodd y DU gyfundrefn annibynnol yr oedd Llywodraeth y DU yn ystyried bod ei hangen iddi allu addasu i dechnolegau newydd, fel Deallusrwydd Artiffisial, yn ogystal ag adlewyrchu'r newid o ran yr hyn y mae defnyddwyr yn ei brynu a'r ffordd y maent yn ei brynu. Mae Llywodraeth y DU yn credu bod angen pwerau newydd arnynt i fynd i'r afael â'r bygythiadau presennol ac yn y dyfodol a sicrhau cyflenwad parhaus o nwyddau diogel.

Barn Llywodraethau'r DU a Chymru oedd bod y Bil yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd. I'r perwyl hwn gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd ar 20 Medi 2024.

Amlinellodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol nifer o resymau i Lywodraeth Cymru gefnogi'r Bil. Fodd bynnag, tynnodd sylw hefyd at y ffaith y byddai'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn arwain at lai o bwerau i Lywodraeth Cymru gyflwyno diwygiadau mewn amrediad o feysydd, o'i gymharu â'r cyfnod pan oedd y DU yn rhan o Farchnad Sengl yr UE. Felly, nodwyd bod angen ymgysylltu pellach â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r pwerau galluogi o fewn y Bil a rôl Gweinidogion Cymru a'r Senedd.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad adroddiad ar y Bil ym mis Tachwedd 2024, a chyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw ym mis Ionawr 2025.

# 2. Ymateb i'r Argymhellion

## Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trafodaethau parhaus rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU ynghylch y Bil hwn cyn gynted â phosibl.

**Ymateb: Derbyn**

Nid oes unrhyw ddiweddariadau sylweddol mewn perthynas â'r trafodaethau parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU ynghylch y Bil. Mae swyddogion yn parhau i gael trafodaethau cadarnhaol â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU mewn perthynas â gwelliannau deddfwriaethol posibl i fynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru a'r Senedd.

Mae adroddiad Tŷ'r Arglwyddi wedi'i drefnu ar gyfer 26 Chwefror, ac wedyn bydd y trydydd darlleniad ar 5 Mawrth. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn ystyried pob gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 29.2, a bydd yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar unrhyw ddiwygiadau sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

## Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, nodi pa newidiadau i'r Bil sydd eu hangen er mwyn iddi fod mewn sefyllfa i argymell cydsyniad

**Ymateb: Gwrthod**

Fel y nodwyd uchod, mae swyddogion yn trafod amrediad o opsiynau deddfwriaethol posibl gyda Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Mae Gweinidogion Llywodraeth y DU yn gwrando, ac mae eu swyddogion yn cydweithredu'n llawn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni allwn roi rhagor o wybodaeth.